Cysylltu â'r Rhwydwaith Trydan

- Ffyrddfreintiau a Chaniatâd



SP ENERGY NETWORKS

Ffyrddfreintiau a Chaniatâd

Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gynllunio eich cysylltiad, fel ei fod o fewn ffiniau eich tir eich hun. Gall cytundeb trydydd parti i gael mynediad i dir rhywun arall achosi oedi i amserlen eich prosiect, ac effeithio ar y dyfynbris.

Os bydd angen caniatâd eich cymydog arnom neu unrhyw drydydd parti arall (fel awdurdod lleol) ni fyddwn yn gallu dechrau'r gwaith heb eu caniatâd. Gan amlaf, mae hynny'n cael ei wneud drwy fforddfraint neu hawddfraint.

Amserlen

Wrth reswm, byddwn yn gwneud pob ymdrech i gael y caniatâd angenrheidiol cyn gynted â phosibl. Serch hynny, rydym yn ddibynnol ar gydweithrediad eich cymdogion ac unrhyw drydydd parti arall, felly mae'n werth ychwanegu'r amser hwn i amserlen eich prosiect.

Pethau i'w hystyried

- Mae'r amser a gymerir yn amrywio, a gall gymryd rhwng 12-16 wythnos i gael pob caniatâd angenrheidiol
- **Gall prosiectau mwy cymhleth gymryd cryn dipyn yn hirach**
- Nid ydym yn bwrw ati i gael caniatâd nes i chi dderbyn eich dyfynbris
- **Mae pris eich dyfynbris yn amodol ar gytuno ar bob caniatâd**
- Os bydd caniatâd yn cael ei wrthod, bydd angen cynllun a dyfynbris newydd

Angen gwybod mwy am ffyrddfreintiau a chaniatâd?

Mae llawer mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan:
www.spenergynetworks.co.uk/reg_consents